**PWYLLGOR ARCHWILIO 17-11-11**

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd John P. Roberts (Cadeirydd);
Y Cynghorydd Gethin G. Williams (Is-gadeirydd)

**Y Cynghorwyr:** E.T. Dogan, Huw Edwards, T.G. Ellis, Keith Greenly-Jones, Margaret Griffith, Selwyn Griffiths, Charles W. Jones, Llinos Merks, Dewi Owen a Sian Gwenllian (Arweinydd Portffolio Cyllid)

**Hefyd yn Bresennol:** Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid), Dewi Morgan (Uwch Reolwr Archwilio a Risg), William E. Jones (Uwch Reolwr Cyllid), Aled Davies (Pennaeth Adran Rheoleiddio), Dafydd W. Williams (Prif Beiriannydd Trafnidiaeth a Gofal Stryd), Caroline Roberts (Rheolwr Buddsoddi), Amanda Hughes (Rheolwr Lleol Swyddfa Archwilio Cymru) a Gwyn Parry Williams (Swyddog Pwyllgor).

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorwyr Dylan Edwards, R.L. Jones a Ioan Thomas

## 1. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Datganodd y Cynghorydd T.G. Ellis fuddiant personol yn yr eitem yn ymwneud â Chronfa'r Degwm, oherwydd ei fod yn Gadeirydd Pwyllgor Eisteddfod Llawrplwy a Phenstryd, Trawsfynydd a oedd yn derbyn nawdd ariannol o'r gronfa.

'Roedd yr aelod o'r farn nad oedd yn fuddiant a oedd yn rhagfarnu a chymerodd ran lawn yn y drafodaeth ar yr eitem.

Datganodd yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg fuddiant personol yn yr eitemau canlynol –
a) Ysgolion Cynradd – Rheolaeth Gyllidebol oherwydd bod ei wraig adeg yr archwiliad yn lywodraethwr ar un o'r ysgolion y cyfeirir ato yn yr adroddiad a bod un o'i blant yn ddisgybl yn yr un ysgol.
b) Uned Ymchwiliadau Budd-Dâl oherwydd bod ganddo gyfrifoldeb rheolaethol tros yr uned, ac yn yr achos dan sylw nododd mai ef oedd yr archwiliedig yn hytrach na'r archwiliwr.

'Roedd y swyddog o'r farn nad oeddynt yn fuddiant a oedd yn rhagfarnu a chymerodd ran lawn yn y drafodaeth ar yr eitemau.

## 2. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 29 Medi 2011 gan nodi ymddiheuriad y Cynghorydd Llinos Merks a hefyd y cywiriad canlynol –
<u>Cofnod 3 – Datganiad Cyfrifon 2010/11</u>
<u>ii) Adroddiad ffurfiol "ISA 260"</u>
<u>a)Datganiadau Cyfrifon 2010/11 Cyngor Gwynedd</u>

Cywiro cymal (b) yn y pedwerydd paragraff ar dudalen 2 i ddarllen "Ym marn yr Archwiliwr, dylai'r Cyngor fod wedi darparu ar gyfer yr amcangyfrif gost cychwynnol drwy adeiladu darpariaeth (yn hytrach na darparu drwy ddyrannu

adnoddau cyfalaf rhwng 2006/07 a 2011/12, sy'n ychwanegol i'r gwir ddarpariaeth sydd eisoes wedi ei wneud ar gyfer amcangyfrif cost o'r capio terfynol)".

## 3. YMATEB YR ADRAN RHEOLEIDDIO I ADRODDIADAU ARCHWILIO MEWNOL

Atgoffwyd y pwyllgor gan yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg bod y pwyllgor, yn dilyn ystyriaeth mewn cyfarfodydd blaenorol o'r adroddiadau archwiliad mewnol yn ymwneud â –
a) Cysoni Incwm Parcio a Dirwyon
b) Cytundeb Maes Parcio Canolfan Menai Bangor
c) Uned Cludiant Integredig
wedi gwneud cais i swyddogion o'r Adran Rheoleiddio fynychu'r cyfarfod er mwyn gallu ateb unrhyw gwestiynau ynglyn â chynnydd a wnaed i ymateb i argymhellion yr adroddiadau ynghyd ac unrhyw faterion eraill sy'n codi o'r adroddiadau archwiliad.

Nododd bod yr adroddiad archwiliad ar "Cysoni Incwm Parcio a Dirwyon" a gyflwynwyd i'r pwyllgor diwethaf wedi derbyn categori barn "CH" ac i'r adroddiad ar yr "Uned Cludiant Integredig" a gyflwynwyd i bwyllgor Gorffennaf 2011 dderbyn categori barn "C". Mewn perthynas â'r adroddiad ar "Cytundeb Maes Parcio Canolfan Menai Bangor" 'roedd y prif faterion yn ymwneud â les y maes parcio.

Adroddodd y Pennaeth Adran Rheoleiddio ar ei ymateb fesul argymhelliad yn yr adroddiadau archwiliad mewnol gan nodi'r cynnydd cyffredinol tuag at ymgymryd â rhai o'r newidiadau a gwella'r trefniadau o fewn yr Adran yn y tri maes. Nododd bod y berthynas waith rhwng ei Adran a'r Uned Archwilio Mewnol yn dda ar y cyfan a gwelir yr archwiliadau fel modd o ganfod beth yw'r gwir sefyllfa ynglyn â rhai darpariaethau'r gwasanaeth ac yn gyfle i ddysgu a gwella'r gwasanaeth.

Mewn ymateb i gwestiwn gan aelod parthed Cytundeb Maes Parcio Canolfan Menai Bangor, hysbysodd y Pennaeth Adran Rheoleiddio bod y maes parcio hwn yn creu problemau i'r Adran oherwydd i'r cwmni fynd yn fethdalwr ac mae diffyg o £80,000 yn bodoli ar hyn o bryd. Bydd angen i'r Cyngor ystyried sut y gellir ymdrin â'r sefyllfa. Ymgymerwyd ac ychydig o waith eisoes i geisio datrys y sefyllfa.

Hysbysodd y Prif Beiriannydd Trafnidiaeth a Gofal Stryd y cysylltwyd ym Medi 2010 â'r cwmni a oedd yn gyfrifol am edrych ar ddyled Cathco ac ni fyddent mewn sefyllfa i drafod â'r Cyngor hyd nes yr edrychir ar werth yr asedau. Fodd bynnag, cynhaliwyd trafodaethau erbyn hyn gyda'r cwmni a deellir bod y maes parcio aml lawr yn cael ei lesu i gwmni preifat ac o'r rent mae'r tâl oddeutu £80,000 y flwyddyn yn cael ei roddi i'r Cyngor i ddigolledu'r Cyngor am incwm y maes parcio a oedd ar y safle cyn i'r maes parcio aml lawr gael ei adeiladu. Nododd bod y cynllun busnes o ran y maes parcio aml lawr wedi ei dynnu i un ochr ac nad yw wedi ei gyplysu gyda chynllun busnes Canolfan Menai a bod yna symudiad i edrych ar y maes parcio aml lawr ar wahân. Ceisir trefnu cyfarfod pellach gyda'r cwmni i drafod yr opsiynau i'r Cyngor a sut y gellir canfod yr £80,000 y flwyddyn neu pa risgiau mae'r Cyngor yn fodlon eu cymryd a fyddai efallai o fwy o fudd i'r Cyngor. Mae'r Adran yn hyderus bod y swm o £80,000 ar gael ar gyfer eleni er nad yw'r Cyngor wedi ei gadarnhau hyd yn hyn.

Mewn ymateb i gwestiwn gan aelod parthed y cynllun gweithredu a gweithredu'r argymhellion yn unol â'r targedau, hysbysodd y Prif Beiriannydd Trafnidiaeth a Gofal Stryd bod yna nifer o opsiynau y bwriedir eu hystyried e.e. casglu arian yn Ardal Goriad Gwyrdd Eryri sy'n bartneriaeth yn ymwneud â sybsideiddio gwasanaeth y bysiau sherpa. Yn ystod yr wythnosau nesaf bwriedir mynd allan i dendr hollol wahanol ar gyfer hynny. Rhoddodd fanylion am y pump opsiwn a oedd yn gynwysedig yn y tendr hwnnw. Bydd yn ofynnol ystyried wedyn pa opsiwn fyddai orau i'r Cyngor a Goriad Gwyrdd Eryri o safbwynt risg a hefyd cael y gwerth gorau am yr arian.

Mewn perthynas â'r Uned Cludiant Integredig a'r argymhelliad sef "Nid yw cytundebau addysg yn ddarostyngedig i Ddeddf Trafnidiaeth ac felly nid yw cymal de minimis yn berthnasol i'r cyundebau hyn. Mae tebygolrwydd bod nifer o gytundebau addysg wedi eu gosod yn groes i reolau caffael", gofynnodd aelod os oes oblygiadau cyfreithiol i aelodau a staff yn gysylltiedig â hyn. Mewn ymateb, hysbysodd y Pennaeth Adran Rheoleiddio bod yr adroddiad archwiliad mewnol yn cadarnhau nifer o wendidau a oedd yn bodoli yn y trefniadau gweithio blaenorol sydd wedi bod yn eu lle ers cryn amser ac a oedd angen mynd i'r afael â hwy. Cyfeiriodd hefyd at rhan o waith a wneir yn rhanbarthol ar gost eithaf sylweddol a edrychodd hefyd ar y math hwn o weithgaredd o fewn y chwech awdurdod. 'Roedd o'r farn bod y maes Cludiant Cyhoeddus yn faes sy'n haeddu'r holl sylw a roddir iddo ar hyn o bryd ac yn faes sydd angen ei wella. O ran y risg, os na ymatebir i'r argymhelliad hwn, cydnabu y byddai risg i'r Cyngor. Ceisir adnabod bob contract sydd heb ei gyflawni yn y modd mwyaf cadarn.

Nododd y Prif Beiriannydd Trafnidiaeth a Gofal Stryd bod hwn yn faes eithaf cymhleth o ran contractau a cheisir symleiddio'r sefyllfa os am gael gwerth am arian.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad ar y cynnydd ar ymateb yr Adran Rheoleiddio i argymhellion yr archwiliadau mewnol.**

**4. CYNNYRCH YR ADAIN ARCHWILIO MEWNOL**

Cyflwynwyd adroddiad yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg yn amlinellu gwaith yr Adain Archwilio Mewnol am y cyfnod rhwng 1 Medi a 31 Hydref 2011. Wrth gyflwyno'r wybodaeth am y gwaith a gwblhawyd yn ystod y cyfnod, cyfeiriodd y swyddog at -

- 18 o adroddiadau am archwiliadau o'r cynllun gweithredol gyda'r categori barn berthnasol yn cael ei ddangos.
- 1 adroddiadau eraill (memoranda a.y.)
- 2 adolygiadau grant
- 2 archwiliadau dilyniant

Adroddwyd ar waith pellach sydd ar y gweill gan Archwilio Mewnol. 'Roedd hyn yn cynnwys 5 o adroddiadau drafft sydd wedi eu rhyddhau a 27 o archwiliadau sy'n mynd rhagddynt.

Cyfeiriodd y swyddog at System Integredig Plant (Gwasanaethau Cymdeithasol) sydd wedi bod yn y cynllun archwilio ers peth amser erbyn hyn. Fe'i gydnabyddir fel maes o risg a'r gofynion statudol oedd i osod

canllawiau penodol a chael trefniadau yn eu lle ar gyfer gwarchod plant bregus. Mae gofyniad ers oddeutu 10 mlynedd bellach i ddatblygu system o'r fath yn dilyn achos yn Lloegr, gan bod penderfyniad yr adeg hynny bod angen cael fframwaith mwy ffurfiol yn ei le i warchod plant bregus. Nododd y swyddog bod nifer o ddogfennau wedi eu rhyddhau gan Lywodraethau San Steffan a Chymru sy'n diffinio agweddau o'r system sef –
a) ICS 1a gyda'r disgwyliad y byddai wedi ei weithredu erbyn 31 Rhagfyr 2006.
b) ICS 1b er mwyn ei weithredu erbyn 31 Rhagfyr 2008.
c) ICS 1c gan ddisgwyl gweithrediad erbyn 30 Ebrill 2010.

Nododd bod canllaw statudol 1c bellach wedi ei ddiddymu yn Lloegr, ond nid yw'r disgwyliadau statudol wedi eu llacio eto yng Nghymru er bod awdurdodau lleol yn disgwyl arweiniad tebyg gan Lywodraeth Cymru ers Hydref 2010.

'Roedd y system yng Nghynllun Tair Blynedd y Cyngor a ddaeth i ben Ebrill 2011 ond nid yw wedi ei gynnwys yn yr un cynllun ar gyfer 2011 – 2014. Nododd bod hwn yn faes statudol angenrheidiol. Awgrymodd y byddai'n fanteisiol i wahodd swyddog o'r Adran Gwasanaethau Cymdeithasol i'r pwyllgor nesaf i egluro'r sefyllfa.

'Roedd aelod o'r farn y dylid rhoddi sylw brys i'r mater cyn cyfarfod nesaf o'r pwyllgor hwn ac awgrymodd y dylai'r Pwyllgor Plant a Phobl ifanc roddi ystyriaeth i'r mater yn gyntaf. Mewn ymateb, hysbysodd yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg yr ystyriwyd y mater eisoes gan y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc ar 30 Tachwedd 2010 a gan bod hwn yn cael ei ystyried yn faes o risg i'r awdurdod, ei fod bellach yn fater i'r Pwyllgor Archwilio.

**PENDERFYNWYD cytuno i wahodd y Pennaeth Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol i'r pwyllgor nesaf i egluro'r sefyllfa.**

Mewn perthynas â'r gwaith dilyniant ar Bwll Nofio Bro Ffestiniog, nododd aelod bod y barn dilyniant yn "anfoddhaol" a bod hynny'n creu pryder iddo. Mewn ymateb, hysbysodd yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg bod llawer o newidiadau gweinyddol a rheolaethol yn gysylltiedig â hyn. 'Roedd y pwll nofio yn parhau dan reolaeth yr Adran Darparu a Hamdden ond i reolaeth y neuadd gael ei drosglwyddo i Ysgol y Moelwyn. Pan edrychwyd ar y gwaith dilyniant cytunwyd i roddi sylw i'r pwll nofio oherwydd ei fod yn parhau dan reolaeth yr Adran Darparu a Hamdden ond bwriedir gwneud archwiliad o'r newydd parthed y neuadd gan y bwriedir cyflwyno systemau newydd.

Atgoffodd y swyddog yr aelodau bod swyddogion o'r Adran Darparu a Hamdden eisoes wedi mynychu'r pwyllgor hwn yng Ngorffennaf 2011 i ateb cwestiynau yn ymwneud ag archwiliadau canolfannau hamdden ac efallai oherwydd y newidiadau rheolaethol newydd y byddai'n rhesymol iddynt gael rhagor o amser er cael gwell trefn. Awgrymodd cadw golwg ar y sefyllfa ar hyn o bryd a bod archwilio mewnol yn paratoi adroddiad dilyniant pellach ymhen chwe mis.

**PENDERFYNWYD gwahodd swyddogion perthnasol o'r Adran Darparu a Hamdden i'r pwyllgor nesaf i egluro'r sefyllfa.**

Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiadau'n unigol ac yn ystod y drafodaeth cyfeiriwyd at y materion canlynol:-

**Ysgolion Cynradd - Rheolaeth Gyllidebol**

Adroddodd yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg bod yna elfennau lleol ar gyllidebau ysgolion. Nododd bod ychydig tros 100 o ysgolion cynradd yng Ngwynedd ac yn yr archwiliad hwn, edrychwyd ar sampl o chwe ysgol ac ar y cyfan, gwelwyd nad oedd rheolaeth fewnol briodol yn bodoli yn yr ysgolion hyn wrth reoli eu cyllidebau. Anfonwyd fersiwn o'r adroddiad terfynol at benaethiaid a cadeiryddion llywodraethwyr y chwe ysgol yn amlygu'r gwendidau yn eu hysgolion hwy, 'Roedd yr Adran Addysg wedi derbyn fersiwn yn manylu'r holl wendidau. Yn ogystal tynnwyd sylw'r holl ysgolion eraill yng Ngwynedd at y disgwyliadau/gofynion cyllidebol arnynt.

Gofynnodd aelod os oes bwriad i edrych ar ysgolion eraill yng Ngwynedd o fewn cyfnod penodol. Mewn ymateb, hysbysodd y swyddog y bwriedir cymryd sampl o ysgolion mewn archwiliad rheolaidd bob tair neu bedair blynedd.

Mewn ymateb i gwestiwn gan aelod parthed yr holiadur balansau, hysbysodd y Pennaeth Cyllid ei bod yn dod yn fwy perthnasol ers blynyddoedd bellach bod balansau rhai ysgol yn eithaf uchel, ac yn flynyddol mae'r Uned Gyllid yn anfon holiadur i'r ysgolion yn gofyn iddynt fanylu ar lefel y balansau.

**System Taliadau – Trefniadau Rhannu Dyletswyddau**

**PENDERFYNWYD anfon llythyr at yr Adran Gyllid yn eu llongyfarch ar dderbyn categori barn "A".**

**Cronfa'r Degwm**

Cyfeiriodd aelod at un o'r argymhellion yn yr adroddiad sef "y dylid derbyn mwy o dystiolaeth gan y cymdeithasau a'r eisteddfodau (megis datganiad banc) gyda'r cais gwreiddiol" ac 'roedd o'r farn bod hyn yn bodoli eisoes pan oedd Is-bwyllgor Cronfa'r Degwm ar y pryd yn ystyried y ceisiadau. Mewn ymateb, hysbysodd yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg bod hwn yn wasanaeth a symudwyd o ran ei weinyddu i'r Adran Economi a Chymuned. Mae'r argymhellion yn adroddiad yr archwiliad yn deillio o drafodaethau gyda swyddogion ac i'r Adran Economi a Chymuned gytuno â'r argymhellion.

Cyfeiriodd aelod arall a fu'n Gadeirydd Is-bwyllgor Cronfa'r Degwm ar un adeg at un arall o'r argymhellion sef "y dylid anfon llythyr i ymgeiswyr i nodi os yw eu cais yn llwyddiannus neu beidio" ac 'roedd o'r farn bod hynny'n fater elfennol. Mewn ymateb, hysbysodd yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg y sylwyd wrth gynnal yr archwiliad na anfonwyd llythyrau ar rhai o'r ymgeiswyr. Awgrymodd y Pennaeth Cyllid y gellid ysgrifennu at yr Adran Economi a Chymuned yn pwyslesio dymuniad yr aelodau iddynt weithredu'r argymhellion sylfaenol a nodir yn yr adroddiad. Cytunwyd i dderbyn awgrym y Pennaeth.

**PENDERFYNWYD anfon llythyr yn nodi dymuniad aelodau'r Pwyllgor Archwilio i'r Adran Economi a Chymuned weithredu'r argymhellion.**

**Cyllideb y Cynllun Lleoli Oedolion**

**PENDERFYNWYD anfon llythyr at yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol yn eu llongyfarch ar dderbyn categori barn "A".**

**Plant – Maethu**

**PENDERFYNWYD anfon llythyr at yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol yn eu llongyfarch ar dderbyn categori barn "A".**

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiadau ar waith yr Adain Archwilio Mewnol am y cyfnod o 1 Medi i 31 Hydref 2011 a chefnogi'r argymhellion a gyflwynwyd eisoes i reolwyr y gwasanaethau perthnasol er gweithrediad.**

**5. CYLLIDEB REFENIW 2011/12 – ADOLYGIAD AIL CHWARTER (MEDI 2011)**

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Cyllid yr adroddwyd eisoes i'r pwyllgor hwn ar ofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 a olygai yn dilyn etholiadau Llywodraeth Leol ym Mai 2012, y bydd angen i'r Cyngor newid ei drefniadau o "drefniadau amgen", sef Bwrdd y Cyngor, i "drefniadau gweithrediaeth" sef Cabinet. Yn ogystal bydd y Mesur yn newid pwyslais a ffurf y Pwyllgor Archwilio. O ran ffurf, bydd y Mesur yn mynnu o leiaf un aelod lleyg ar y pwyllgor, ac o ran pwyslais, bydd y pwyllgor yn craffu rhai materion ariannol a gyflwynwyd yn flaenorol i'r Prif Bwyllgor Craffu. Cytunodd y Pwyllgor Archwilio cyfredol i dreialu'r drefn, drwy dderbyn adroddiadau ariannol ychwanegol yn ystod 2011/12, sef adroddiadau cyllideb chwarterol ac adroddiadau rheolaeth trysorlys ar fuddsoddi a benthyg. Nododd mai Bwrdd y Cyngor sydd â'r hawl i benderfynu ar yr argymhellion a wneir gan y Pwyllgor Archwilio ar y gyllideb refeniw.

Cyflwynodd y Pennaeth –
a) Yr adroddiad chwarterol ar yr adolygiad diweddaraf o gyllideb refeniw'r Cyngor am 2011/12 gan roddi crynhoad o'r sefyllfa fesul adran.
b) Fanylion pellach ynglyn â'r prif faterion a'r penawdau cyllideb lle y rhagwelir gwahaniaethau sylweddol, ynghyd ag argymhellion penodol.

Nododd y Pennaeth y cymerwyd camau wrth lunio cyllideb 2011/12, i arbed £1.2m, a golygai hyn rhywfaint mwy o risg o orwario ar rai cyllidebau. Cyfeiriodd at rhai o'r materion sy'n codi a'r camau a gymerwyd i'w rheoli mewn perthynas â chwyddiant, incwm corfforaethol, incwm yr adrannau, Adran Ymgynghoriaeth, gwariant yr adrannau (cyffredinol), Addysg a Gwasanaethau Cymdeithasol.

Mewn perthynas â Tai – Digartrefedd, nododd aelod fethiant yr Adran i ddefnyddio tai "gwledig" yn y Cynllun Lesu Preifat yn hytrach na rhai "trefol" yn unig. Cytunwyd i ofyn i'r Adran Dai ystyried ehangu'r cynllun er defnyddio tai "gwledig" yn ogystal.

Tynnodd aelod sylw at y gorwariant o £130k yn y chwarter cyntaf yn yr Adran Democratiaeth a Chyfreithiol a gofynnodd a fyddai'n bosibl gwneud mwy o ddefnydd o gyfrifiaduron e.e. anfon rhaglenni pwyllgorau'n electroneg yn hyrach na'u postio, er ceisio lleihau'r gorwariant. Mewn ymateb, hysbysodd yr Uwch Reolwr Cyllid y trafodwyd y mater gyda Phennaeth yr Adran. Nododd

mai'r prif broblem ar hyn o bryd yw'r Uned Argraffdy a chynhaliwyd adolygiad busnes o sefyllfa'r Uned yn ddiweddar. Bwriad y Pennaeth Democratiaeth a Chyfreithiol yw cyflwyno adroddiad ar y sefyllfa i'r Grŵp Arweinyddiaeth cyn gynted â phosibl.

**PENDERFYNWYD nodi'r sefyllfa a gyflwynwyd yn adroddiad y Pennaeth Cyllid ac argymell y canlynol i Fwrdd y Cyngor –**

**i) <u>Gwasanaethau Cymdeithasol a Tai</u>**

**<u>Gwasanaethau Canolog</u>**

- **Clustnodi £253k o'r arbedion "Categori C" ar sail unwaith ac am byth am eleni, ac ar sail parhaol am 2012/13, ar gyfer ategu'r rhaglen cynlluniau arbedion tuag at y £16miliwn**
- **Trosglwyddo cyllideb o £50k ar sail unwaith ac am byth i leddfu'r sefyllfa gorwariant a welir ar gyllidebau'r Gwasanaeth Plant a Theuluoedd.**

**<u>Gwasanaeth Plant a Theuluoedd</u>**

- **<u>Lleoliadau All-Sirol</u> – trosglwyddo £500k o'r tan ddefnydd dan y gwahanol benawdau "Oedolion" ar sail unwaith ac am byth i leddfu sefyllfa gorwariant lleoliadau all-sirol.**
- **<u>Maethu drwy Asiant</u> – trosglwyddo £30k o'r tan ddefnydd dan y gwahanol benawdau "Oedolion" ar sail unwaith ac am byth i leddfu'r sefyllfa gorwariant yn y maes hwn.**
- **<u>Gwasanaeth Ôl-16</u> – trosglwyddo £40k o'r tan ddefnydd dan y gwahanol benawdau "Oedolion" ar sail unwaith ac am byth i leddfu'r sefyllfa gorwariant yn y maes hwn.**

**<u>Gwasanaeth Oedolion</u>**

- **<u>Anabledd Dysgu</u> – dychwelyd £47k o arian bid na ddefnyddir eleni i falansau cyffredinol.**

- **<u>Cyffredinol</u> – bod yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol yn blaenoriaethu ar gyfer cyfarfod â'r gofynion parthed cynnal a mân welliannau i gartrefi preswyl o fewn eu cyllidebau parhaol cyfredol.**

**ii) <u>Addysg</u>**

- **<u>Diswyddo Gorfodol/Ymddeol Cynnar Gwirfoddol</u> – trosglwyddo £107k i'r gronfa penodol wrth gefn ar gyfer costau diswyddo/ymddeol athrawon yn y dyfodol.**
- **<u>Integreiddio</u> – trosglwyddo £69k i'r gronfa penodol wrth gefn ar gyfer Integreiddio disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol yn y dyfodol.**

**iii) <u>Ymgynghoriaeth</u>**

- **<u>Ymgynghoriaeth</u> – cymeradwyo £70k o gyllideb i'r Adran, i alluogi gostwng y gyllideb incwm cyfredol ac i ddod o ddarpariaeth wrth gefn.**

**iv) <u>Democratiaeth a Chyfreithiol</u>**

- **Rhoddi ystyriaeth pellach i unrhyw gefnogaeth ariannol tuag at sefyllfa'r Uned Argraffdy ar ôl derbyn ac ystyried adroddiad y Pennaeth Democratiaeth a Chyfreithiol ar y mater.**
- **Trosglwyddo £112k o'r Gronfa Democratiaeth i'r Gronfa Hyfforddiant Aelodau.**

**v) <u>Gofal Cwsmer</u>**

- **Trosglwyddo £47k ar gyfer costau diswyddo penodol i gronfa benodol er mwyn gallu ymateb i'r newidiadau yn y rhaglen gyfalaf.**

**PENDERFYNWYD hefyd anfon llythyr at yr Uwch Reolwr Tai yn gofyn iddo roddi ystyriaeth i ddefnyddio tai "gwledig" ar gyfer y Cynllun Lesu Preifat, yn ogystal â rhai "trefol", gan y gallai hynny leihau'r gorwariant ar y gyllideb Digartrefedd.**

## 6. RHAGLEN GYFALAF 2011/12 – ADOLYGIAD DIWEDD YR AIL CHWARTER (30 MEDI 2011)

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Cyllid yn rhoddi manylion am y rhaglen ddiwygiedig a'r ffynonellau ariannu perthnasol. Nododd bod dau prif gasgliad yn codi o'r adolygiad ail chwarter sef –
a) Bod y gwir wariant hyd at 30 Medi 2011 dim ond 28% o'r gyllideb, o'i gymharu â 34% yn yr hanner blwyddyn cyffelyb y llynedd.
b) Bod cymaint â £19.4m am lithro o 2011/12 i 2012/13. 'Roedd yn gam positif bod hynny eisoes wedi ei adnabod erbyn yr ail chwarter, ond gallai'r llithriad gael effaith ar wasanaethau.

Mewn perthynas â'r newidiadau i'r ffynonellau ariannu, nododd y Pennaeth y dengys cyllideb y rhaglen gyfalaf tair blynedd, gynnydd o £4,300,000 ers y sefyllfa chwarter cyntaf. Rhoddodd fanylion am y ffynonellau ariannu.

Cyfeiriodd y Pennaeth at lithriad 2012/13 gan nodi mai cyfanswm y lefel llithriadau yn y rhaglen gyfalaf o 2011/12 i 2012/13 hyd yma yw £19,446,230. Rhoddodd fanylion am y cynlluniau sy'n debygol o lithro ond ni olygai'r llithriadau golled mewn grant. Cadarnhaodd nad oes unrhyw risg i golli arian a bod grŵp o swyddogion wedi ei sefydlu, yn cynnwys y Penaethiaid Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Ymgynghoriaeth, Gofal Cwsmer (Eiddo) a Strategol a Gwella, er mwyn edrych ar y llithriadau er ceisio gwella'r gyfundrefn. Disgwylir ar gyfer y flwyddyn nesaf y bydd y rhaglen gyfalaf wedi derbyn sylw mwy ystyrlon er ceisio dangos llai o lithriadau.

Nododd aelod anfodlonrwydd na chyflwynwyd y mwyafrif o'r proffiliau gwariant tan fis Medi 2011. Mewn ymateb, hysbysodd y Pennaeth bod dwy Adran wedi cyflwyno proffiliau'n gynnar yn y flwyddyn sef Priffyrdd a Bwrdeistrefol a Rheoleiddio ond yn anffodus nid oedd y gweddill o'r Adrannau wedi cyflwyno eu proffiliau ar amser a dyna'r rheswm pam na chynhwyswyd y proffiliau yn y rhaglen. Cytunwyd, yn wyneb y pryder parthed lefel y llithriadau cyfredol yn y rhaglen gyfalaf, disgwylir i'r swyddogion gael gwell rheolaeth tros y sefyllfa i'r dyfodol.

**PENDERFYNWYD**
**a) Argymell i Fwrdd y Cyngor dderbyn rhaglen ddiwygiedig 2011/12 a chymeradwyo'r ffynonellau ariannu perthnasol.**
**b) Cadarnhau, lle bu llithriadau sylweddol, y disgwylir i'r adrannau perthnasol (ynghyd â'r Adran Strategol a Gwella) adrodd yn briodol i'r Pwyllgor Craffu perthnasol, gan nodi'r effaith ar wasanaethau a ddarperir gan yr Adran berthnasol.**

## 7. RHEOLAETH TRYSORLYS 2011/12 – ADOLYGIAD CANOL BLWYDDYN

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Cyllid ar weithgaredd rheolaeth trysorlys y flwyddyn gyfredol.

Adroddodd y Rheolwr Buddsoddi bod Côd Ymarfer CIPFA ar Reolaeth Trysorlys wedi gosod y sylfaen i Strategaeth Rheolaeth Trysorlys y Cyngor, sy'n cynnwys yr angen i benderfynu ar strategaeth ariannol ar y gweithgarwch ariannu a buddsoddi tebygol ar gyfer y flwyddyn ariannol i ddod.

Nododd bod y Côd Ymarfer hefyd yn argymell y dylid hysbysu aelodau o weithgareddau Rheolaeth Trysorlys o leiaf dwywaith y flwyddyn. 'Roedd yr adroddiad hwn yn sicrhau bod yr awdurdod hwn yn arddel arfer gorau yn unol ag argymhellion Côd Ymarfer CIPFA.

Manylodd ar gynnwys yr adroddiad sef yr economi, rheoli dyledion, gweithgarwch buddsoddi, cydymffurfio â dangosyddion darbodus a'r rhagolygon ar gyfer cyfraddau llog.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad er gwybodaeth.**

## 8. DATGANIAD STRATEGAETH RHEOLAETH TRYSORLYS 2011/12

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Cyllid ar Ddatganiad Strategaeth Rheolaeth Trysorlys 2011/12.

Adroddodd y Rheolwr Buddsoddi y cymeradwywyd Datganiad Strategaeth Rheolaeth Trysorlys 2011/12 gan y Cyngor ar 3 Mawrth 2011 ac mae'n gosod y fframwaith ar gyfer buddsoddi arian tros ben er mwyn ennill llog yn ystod y flwyddyn.

Nododd bod y sefyllfa ariannol fyd-eang wedi dirywio yn ystod 2011/12, ac mae nifer o fanciau ar Restr Gwrthbartion Awdurdodedig y Cyngor wedi eu hisraddio. Yn unol â'r Datganiad Strategaeth Rheolaeth Trysorlys 2011/12, mae'n hanfodol bod unrhyw sefydliad ariannol a ddefnyddir at ddibenion buddsoddi gyda graddfa credyd "A" o leiaf ac mai uchafswm ar gyfer hyd y buddsoddiad yw dwy flynedd. Mae ymgynghorwyr trysorlys y Cyngor, Arlingclose, yn argymell y dylid newid y cyfyngiad i raddfa credyd isafswm o "A-" ac uchafswm buddsoddiad o flwyddyn. Nid yw'n fwriad i ychwanegu pob banc gyda graddfa credyd "A-" i'r rhestr, ond byddai hyn yn caniatau gwneud buddsoddiadau gyda banciau a chymdeithasau adeiladu'r DU sy'n systemig bwysig a rhoddodd fanylion amdanynt i'r pwyllgor. 'Roedd israddio diweddar i rhai o'r sefydliadau hyn oherwydd lleihad yn eu cyfraddiad tymor hir (tros 13 mis) oherwydd newidiadau y disgwylir yn y system bancio mewn pum mlynedd. Rhwng 3 a 6 mis yw'r cyfyngiadau cyfredol ar y buddsoddiadau ac nad yw'r cyfraddiadau ar gyfer tymhorau byrrach wedi cael eu heffeithio. Felly, mae'r risg o fewn y paramedrau a osodwyd yn y strategaeth ar gyfer 2011/12.

Nododd ymhellach bod Datganiad Strategaeth Rheolaeth Trysorlys 2011/12 yn cynnwys Adneuon Cyfnod Penodol gydag Awdurdodau Lleol fel buddsoddiad diogel iawn ac iddo fod yn ffynhonnell dda o incwm yn ystod 2011/12. £10m yw'r cyfyngiad cyfredol ar gyfer buddsoddiadau gydag awdurdodau lleol eraill ond mae ymgynghorwyr trysorlys y Cyngor yn argymell codi'r cyfyngiad hwn i £25m.

Diolchwyd i'r swyddogion am eu gwaith yn ymdrin â'r mater.

**PENDERFYNWYD argymell i'r Cyngor ar 15 Rhagfyr 2011 –**
**a) Y dylid newid y cyfyngiad i raddfa credyd isafswm o "A-" ac uchafswm buddsoddiad o flwyddyn ar gyfer unrhyw sefydliad ariannol a ddefnyddir at ddibenion buddsoddi.**
**b) Godi'r cyfyngiad ar gyfer buddsoddiadau gydag awdurdodau lleol eraill i £25m.**

## 9. PROTOCOL AR Y CYD RHWNG YR ARCHWILWYR ALLANOL AC ARCHWILIO MEWNOL

Cyflwynwyd adroddiad yr Archwilwyr Allanol a'r Uwch Reolwr Archwilio a Risg ar y protocol.

Hysbysodd Rheolwr Lleol Swyddfa Archwilio Cymru y paratowyd y protocol yn dilyn argymhelliad Swyddfa Archwilio Cymru ar wasanaeth Archwilio Mewnol y Cyngor. Nododd bod y protocol yn pennu'r cydberthynas waith rhwng Archwilwyr Mewnol ac Allanol y Cyngor.

Nododd yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg nad oes newid sylweddol yn y drefn weithio ac mai ffurfioli'r drefn bresennol mae'r ddogfen hon. Pwysleisiodd bod y berthynas rhyngddynt yn gweithio'n dda ar hyn o bryd.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad er gwybodaeth**

## 10. CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL 2011/12

Cyflwynwyd adroddiad yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg yn rhoddi diweddariad ar y sefyllfa gyfredol o ran cwblhau cynllun archwilio mewnol 2011/12.

Rhoddodd fanylion am y sefyllfa fel ag yr oedd ar 31 Hydref 2011 yn ogystal â'r amser a dreuliwyd ar bob archwiliad hyd yma. Tynnwyd sylw at y tabl canlynol sy'n datgelu statws cyfredol y gwaith yn y cynllun gweithredol -

| **Statws yr Archwiliad** | **Nifer** |
|---|---|
| Wedi ei gynllunio | 28 |
| Crewyd papurau gwaith | 3 |
| Gwaith Maes ar y gweill | 18 |
| Cwblhawyd Gwaith Maes | 5 |
| Disgwyl Adolygiad | 1 |
| Adroddiad Drafft | 5 |
| Adroddiad Terfynol | 51 |
| Wedi ei gau | 2 |
| **Cyfanswm** | **113** |
| | |
| Wedi ei ganslo | 3 |

Hysbysodd bod y 30 diwrnod a ddyranwyd i Grantiau (Grŵp Amgylchedd) bellach wedi eu rhannu i chwech archwiliad ar wahân, 5 diwrnod yr un. Nododd mai targed perfformiad 2011/12 yw i gael 95% o archwiliadau'r cynllun addasiadau unai wedi eu cau neu gydag adroddiad terfynol wedi ei

ryddhau erbyn 31 Mawrth 2012. Yn ôl proffil y dangosydd, y targed ar gyfer diwedd chwarter 3 yw 60%, Nododd hefyd bod gwir gyrhaeddiad Archwilio Mewnol hyd at ddiwedd Hydref 2011 yn 46.9% ac allan o'r 113 archwiliad unigol yng nghynllun addasedig 2011/12, 'roedd 51 wedi eu rhyddhau'n derfynol a dau arall wedi ei gau. Er mwyn cyfarfod â'r proffil chwarterol, bydd angen cau neu ryddhau adroddiad terfynol 15 archwiliad arall erbyn diwedd Rhagfyr, sef 68 allan o 113, a disgwylir y bydd hyn wedi ei wireddu.

Mewn perthynas ag addasiadau i'r cynllun, rhoddodd y swyddog fanylion am yr addasiadau hynny i'r aelodau.

**PENDERFYNWYD nodi cynnwys yr adroddiad fel diweddariad o gynnydd yn erbyn cynllun archwilio 2011/12.**

Dechreuodd y cyfarfod am 10.30am a daeth i ben am 12.15pm